Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb
## Briff Ymchwil

Hydref 2018



www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**


# Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb
## Briff Ymchwil

Hydref 2018


**Awdur:** Nigel Barwise


**Dyddiad:** 01 Hydref 2018
**Rhif y papur:** 18-054

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .... **1**

**Datblygiadau yng Nghymru** .... **1**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru .... 1

Llywodraeth Cymru .... 4

Newyddion .... 5

**Datblygiadau yn yr UE** .... **7**

Y Cyngor Ewropeaidd .... 7

Y Comisiwn Ewropeaidd .... 7

Senedd Ewrop .... 8

Newyddion .... 9

**Datblygiadau yn y DU** .... **10**

Llywodraeth y DU .... 10

Tŷ'r Cyffredin .... 11

Pwyllgorau .... 12

Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: .... 12

Craffu ar Ewrop: .... 12

Ymadael â'r UE: .... 12

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: .... 12

Materion Cartref: .... 12

Hawliau Dynol: .... 12

Masnach Ryngwladol: .... 12

Gogledd Iwerddon: .... 13

Gweithdrefnau: .... 13

Cyfrifon Cyhoeddus: .... 13

Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol: .... 13

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: .... 13

Materion yr Alban: .... 14

Y Trysorlys: .... 14

Tŷ'r Arglwyddi .... 14

Pwyllgorau .... 14

Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol: .... 14

Materion Economaidd: .... 14

Pwyllgor Dethol yr UE: .... 14

Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE: .... 15

Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE: .... 15

Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE: .... 15

Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE: .... 15

Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE: .... 15

Cysylltiadau rhyngwladol: .... 15

Newyddion .... 16

**Briff Ymchwil:** Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb

**Yr Alban ....................17**

Senedd yr Alban .................... 17

Llywodraeth yr Alban .................... 17

**Gogledd Iwerddon ....................19**

**Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon ....................20**

**Adroddiadau a gyhoeddwyd ....................21**

Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi .................... 21

The Conversation .................... 21

UK in a Changing Europe .................... 21

LSE Brexit .................... 22

Arall .................... 23



# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; yr UE; y DU; yr Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 12 a 26 Medi 2018, ond cyfeirir hefyd at ddigwyddiadau mwy diweddar pan fo'r wybodaeth honno ar gael ar adeg llunio'r drafft terfynol.

# Datblygiadau yng Nghymru

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (MADY) yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n ymwneud â Brexit.*

Mae'r Pwyllgor MADY wrthi'n cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i **Berthynas Cymru ag Ewrop a'r byd yn y Dyfodol - Rhan dau** ac ymchwiliad ynghylch **Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?**

Dyma sesiynau diweddaraf y Pwyllgor MADY:

- 17 Medi: Dechreuodd y Pwyllgor y tymor newydd drwy gynnal sesiwn i graffu ar y Prif Weinidog. **Trawsgrifiad.**
- 24 Medi: Ar ôl nodi'r ohebiaeth, cafodd y Pwyllgor drafodaeth breifat. **Trawsgrifiad**.

Ar 17 Medi ystyriodd y Pwyllgor MADY ohebiaeth gan:

- **Brif Weinidog Cymru ynghylch goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol Brexit**
- **Syr William Cash, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Ewrop a'r Arglwydd Boswell, Cadeirydd Pwyllgor Dethol yr UE at Dominic Raab AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ynghylch craffu ar ddogfennau'r UE yn ystod cyfnod pontio neu gyfnod gweithredu ar ôl ymadael - 24 Gorffennaf 2018.**

- **David Lidington AS, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet i'r Arglwydd McFall o Alcluith ynghylch gweithgarwch rhynglywodraethol yn ymwneud â Brexit - 25 Gorffennaf 2018.**
- **Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch y gwaith dilynol ar sesiwn graffu 2 Gorffennaf - 2 Awst 2018**.
- **Gohebiaeth gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ynghylch polisi masnach ar ôl Brexit a'r goblygiadau i Gymru - 3 Awst 2018**.
- **Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch Cyfraith yr UE yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit? - 10 Awst 2018**.
- **Robin Walker AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE ynghylch Cyfraith yr UE yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit? - 13 Awst 2018**.
- **Julie James, Arweinydd y Tŷ at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ynghylch y materion gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – 28 Awst 2018**.
- **David Lidington AS, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, ynghylch y trefniadau ar gyfer Fforwm y Gweinidogion ar Drafodaethau'r UE – 3 Medi 2018**.
- **Prif Weinidog Cymru, ynghylch y cais am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion yn yr adroddiad ar 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?' – 10 Medi 2018**.
- **Robin Walker AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE ynghylch y berthynas ag Ewrop yn y dyfodol – 11 Medi 2018**.

Ar 24 Medi ystyriodd y Pwyllgor MADY ohebiaeth gan:

- **Dr Richard Greville, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - iechyd a meddyginiaethau - 15 Awst 2018**.
- **Adrian Greason-Walker, Cynghrair Twristiaeth Cymru ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - porthladdoedd - 30 Awst 2018.**
- **Tina Donnelly, Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - iechyd a meddyginiaethau - 31 Awst 2018.**



**Briff Ymchwil:** Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb

- **Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - iechyd a meddyginiaethau - 3 Medi 2018.**
- **Robin Smith, Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - porthladdoedd - 4 Medi 2018.**
- **Anna Malloy, Porthladd Aberdaugleddau ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - porthladdoedd - 7 Medi 2018**.
- **Liam Anstey, BMA Cymru Wales ynghylch yr ymchwiliad dilynol i sut mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit - iechyd a meddyginiaethau - 7 Medi 2018.**

**Arall**

18 Medi: Datganiad yn y Cyfarfod Llawn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: **Y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau pontio Ewropeaidd.**

25 Hydref: Fforwm rhyngseneddol ar Brexit yng Nghaerdydd.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ar flog **Pigion**. Y blogiau diweddaraf ynghylch Brexit yw **Yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE: Yr achos dros gyllid yn y dyfodol i Gymru; Dyfodol amaethyddiaeth: cynigion ar draws y DU; Adroddiad Monitro Trafodaethau ynglŷn â Gadael yr Undeb Ewropeaidd; Beth mae ail gyfres Llywodraeth y DU o hysbysiadau dim cytundeb yn ei olygu i Gymru?**

Ar 25 Medi cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar **Y paratoadau ar gyfer disodli ffrydiau cyllido'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru**. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 11 o argymhellion, gan gynnwys rhai mewn meysydd allweddol fel sicrhau nad yw Cymru 'geiniog ar ei cholled' ar ôl Brexit, ac ar ariannu a datganoli ffynonellau cyllid mawr ar ôl Brexit megis y Gronfa Rhannu Ffyniant ar gyfer y DU gyfan a chymorth ym maes amaethyddiaeth.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ei adroddiad ar fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd ym mis Gorffennaf 2018. **Ymatebodd** Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ym mis Medi 2018. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar **Drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit** ar 27 Mehefin, ac **ymatebodd** Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar **'Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit'**. Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor yn drafftio ei adroddiad ar ei ymchwiliad i **Effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru,** ar ôl cynnal **sesiwn dystiolaeth ffurfiol** a gweithdy rhanddeiliaid ym mis Gorffennaf, ac mae wedi **cyhoeddi'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law**.

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal **ymchwiliad** i **Effaith Brexit ar addysg uwch ac addysg bellach.** Mae'r Pwyllgor wedi gorffen clywed tystiolaeth lafar yn ddiweddar, gan gynnal sesiynau ar 12 Gorffennaf (**trawsgrifiad**), 18 Gorffennaf (**trawsgrifiad**) ac 20 Medi (**trawsgrifiad**). Mae hefyd **wedi cyhoeddi'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law.**

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyhoeddi adroddiadau ar Is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae modd dod o hyd i'r rhain ar **dudalennau gwe'r Pwyllgor.** Cyhoeddodd y Pwyllgor **ei adroddiad** ar **Y pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth – materion gweithredol ym mis Gorffennaf 2018, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2018. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi dechrau ymchwiliad i Bwerau yn y Bil Masnach i wneud is-ddeddfwriaeth.**

## Llywodraeth Cymru

11 Medi: **£10.3m o gyllid yr UE yn rhoi hwb i sector technoleg y môr yng Nghymru**.

11 Medi: **Brexit heb gytundeb fyddai'r sefyllfa waethaf bosib i gleifion Cymru - Llywodraeth y DU yn cael rhybudd gan Ysgrifennydd Iechyd Cymru.**

12 Medi: **Y Bil Amaethyddiaeth yn gam pwysig o ran cefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit** – Lesley Griffiths.

12 Medi: **Datganiad Ysgrifenedig - Cyflwyniad i Fil Amaethyddiaeth y DU.**

17 Medi: **€4.3m o gyllid yr UE i gynllun arsylwi morol Iwerddon Cymru.**

24 Medi: **£5.7m o gyllid yr UE i annog astudio pynciau STEM**.

24 Medi: **Dros £6m o gymorth Brexit i Airbus a'r sector modurol**.

24 Medi: Datganiad Ysgrifenedig – **Dros £25 miliwn bellach wedi'i ymrwymo i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus Cymru i baratoi ar gyfer Brexit.**

## Newyddion

12 Medi: **Mae cynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer amaethyddiaeth yn anghytbwys** yn ôl Cymdeithas y Ffermwyr Tenant

12 Medi: **Ymateb y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad i'r Bil Amaethyddiaeth**.

12 Medi: **Mae Bil Amaethyddiaeth DEFRA yn naid i'r tywyllwch o safbwynt economaidd a chyfreithiol, yn ôl Undeb Amaethwyr Cymru.**

12 Medi: **Datganiad Safbwynt – Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU** (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru)

12 Medi: **Cyflwyno UK: A Nation United by Food, adroddiad Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ar fwyd, i wleidyddion Prydain.**

14 Medi: **Rhaid i gynhyrchu bwyd fod wrth wraidd polisi ffermio yn y dyfodol, yn ôl aelodau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru**.

14 Medi: **Datganiad y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ar 'Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit'.**

18 Medi: **Datganiad y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ar y cyflenwad o weithwyr o'r UE ar ôl Brexit.**

24 Medi: **Mae angen eglurhad ynghylch y Rhaglen Datblygu Gwledig ar ffermwyr Cymru, meddai Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru.**

25 Medi: **Ffermwyr tenant Cymru yn ystyried goblygiadau posibl cynigion Llywodraeth Cymru** (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru)

25 Medi: **Byddai Brexit heb gytundeb yn hynod negyddol i'r diwydiant ffermio yng Nghymru** – Mae'r hysbysiadau'n awgrymu y gallai gymryd o leiaf chwe mis i'r DU gael ei chymeradwyo gan yr UE fel allforiwr ac, yn yr amser hwnnw, ni fyddai'r UE yn derbyn anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru)





# Datblygiadau yn yr UE

## Y Cyngor Ewropeaidd

17 Medi: Rhaglen ddangosol – Y Cyngor Materion Cyffredinol a'r Cyngor Materion Cyffredinol (Erthygl 50) 18 Medi 2018.

18 Medi: **Llythyr gwahoddiad gan y Llywydd Donald Tusk at aelodau'r Cyngor Ewropeaidd cyn eu cyfarfod anffurfiol yn Salzburg ar 19 a 20 Medi 2018.**

19 Medi: **Sylwadau gan y Llywydd Donald Tusk cyn yr uwchgynhadledd anffurfiol yn Salzburg.**

20 Medi: **Sylwadau gan y Llywydd Donald Tusk ar ôl yr uwchgynhadledd anffurfiol yn Salzburg.**

21 Medi: **Datganiad gan y Llywydd Donald Tusk ar y trafodaethau ynghylch Brexit.**

## Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi 66 o '**Nodiadau parodrwydd ar gyfer Brexit'** ynghylch goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd – yn amodol ar unrhyw drefniant pontio a allai gael ei gynnwys mewn cytundeb ymadael posibl.

11 Medi: Araith gan yr Is-lywydd Dombrovskis yn **sesiwn lawn Senedd Ewrop fel rhan o'r ddadl ar ddyfodol Ewrop gydag Alexis Tsipras, Prif Weinidog Gwlad Groeg.**

12 Medi: **Araith y Llywydd Jean-Claude Juncker ar gyflwr yr undeb 2018.**

18 Medi: **Datganiad i'r wasg gan Michel Barnier yn dilyn cyfarfod y Cyngor Materion Cyffredinol (Erthygl 50).**

18 Medi: **Y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflwyno dull cynhwysfawr ar gyfer moderneiddio Sefydliad Masnach y Byd**.

20 Medi: **Un flwyddyn yn ddiweddarach: cytundeb masnach yr UE a Chanada yn darparu canlyniadau cadarnhaol.**

21 Medi: **Bod yn fwy amlochrog: y Llywydd Juncker a dirprwyaeth lefel uchel o'r UE yn wythnos Gweinidogol rhif 73 Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.**

23 Medi: **Datganiad i'r Wasg ar y cyd gan yr UE a'r Cenhedloedd Unedig. Trydydd cyfarfod tairochrog yr Undeb Affricanaidd, yr Undeb Ewropeaidd a'r Cenhedloedd Unedig: Hysbysiad ar y cyd. Datganiad i'r wasg gan y Llywydd Jean-Claude Juncker gydag António Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, yn dilyn eu cyfarfod yn y Cenhedloedd Unedig.**

24 Medi: **Cyllideb yr UE: y Comisiwn yn cymryd camau pellach i ofyn i'r Deyrnas Unedig sicrhau bod tollau tramor sy'n ddyledus ond sydd wedi mynd heibio ar gael i gyllideb yr UE** - yn seiliedig ar gynnig gan Gomisiynydd y Gyllideb ac Adnoddau Dynol, Günther H. Oettinger, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi penderfynu anfon Barn Resymedig at y Deyrnas Unedig oherwydd iddi fethu â sicrhau bod tollau tramor ar gael i gyllideb yr UE, fel sy'n ofynnol o dan gyfraith yr UE.

24 Medi: **Rheol y Gyfraith: y Comisiwn Ewropeaidd yn cyfeirio Gwlad Pwyl i Lys Cyfiawnder Ewrop er mwyn amddiffyn annibyniaeth y Goruchaf Lys Pwylaidd**.

## Senedd Ewrop

10-13 Medi: **Cyfarfod Llawn yn Strasbwrg** Roedd yr agenda yn cynnwys:

- Dadl a phleidlais ar effaith polisi cydlyniant yr UE ar Ogledd Iwerddon – Adroddiad gan Derek Vaughan ASE.
- Dadl gyda Phrif Weinidog Gwlad Groeg, Alexis Tsipras, ar ddyfodol Ewrop.
- Datganiad ar gyflwr yr undeb gan Lywydd y Comisiwn.

11 Medi: **Gogledd Iwerddon: y Senedd am sicrhau cyllid rhanbarthol ar ôl Brexit.**

11 Medi: **Bydd etholiadau'r UE yn 2019 yn frwydr ynghylch gwerthoedd, yn ôl y Prif Weinidog Tsipras o Wlad Groeg.**

12 Medi: **Dadl ynghylch Cyflwr yr Undeb: Cryfhau'r UE ar lwyfan byd-eang.**

17 Medi: **Ni ddylai Iwerddon dalu'r pris am Brexit, meddai Guy Verhofstadt**





17 Medi: **Brexit: Aelodau Senedd Ewrop yn poeni am sefyllfa'r DU o ran "bil ysgaru" Prydain.**

1-4 Hydref: **Cyfarfod Llawn yn Strasbwrg.** Mae'r agenda yn cynnwys:

- Paratoadau ar gyfer cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ar 18 a 19 Hydref 2018, datganiadau gan y Cyngor a'r Comisiwn.
- Dadl gyda Phrif Weinidog Estonia, Jüri Ratas, ar Ddyfodol Ewrop.

## Newyddion

6 Medi: **Araith Ivan Rogers yn Siambr Fasnach Prydain ac Iwerddon yn Nulyn.**

19 Medi: **O ran hysbysiad y Deyrnas Unedig o'i bwriad i ymadael â'r UE, nid oes iddo'r canlyniad bod yn rhaid gwrthod neu ohirio gweithredu gwarant Ewropeaidd a ddosbarthwyd gan Aelod-wladwriaeth i arestio unigolyn** (Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd)

19 Medi: **Byddai Cynllun Chequers yn creu system tollau tramor hynod gymhleth na fyddai'n gweithio'n ymarferol, gyda'r prif ddiben o atal y rheini sydd fwyaf uchel eu cloch dros adael yr UE ym Mhrydain rhag teimlo'n chwithig** (Cymdeithas Diwydiant Peirianneg Mecanyddol yr Almaen (VDMA))

# Datblygiadau yn y DU

## Llywodraeth y DU

24 Gorffennaf: **Deddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE.**

12 Medi: **Bil Amaethyddol nodedig i sicrhau Brexit sy'n ystyried yr amgylchedd**.

13 Medi: Diweddariad: **Gwladolion y DU yn yr UE: gwybodaeth hanfodol.**

13 Medi: **Hysbysiad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Trafodaethau'r UE).**

17 Medi: **Hysbysiad Fforwm y Gweinidogion.**

17 Medi: **Cyfarfu Theresa May â Joseph Muscat, Prif Weinidog Malta, yn Downing Street.**

19 Medi: **May yn rhybuddio'r UE i beidio â thrin y DU yn annheg yn y trafodaethau ynghylch Brexit** (Y Prif Weinidog yn Die Welt)

21 Medi: **Datganiad y Prif Weinidog am y trafodaethau ynghylch Brexit.**

24 Medi: **Cyfarfod y Prif Weinidog â Guy Verhofstadt ASE.**

24 Medi: Diweddariad: **Sut i baratoi os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb.**

- **Allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid pe na bai cytundeb ynghylch Brexit**: Byddai'n ofynnol i'r DU fod yn drydedd wlad restredig yn ôl rheolau'r UE. Er ei bod yn annhebygol y bydd y DU yn gadael heb gytundeb, pe bai hynny'n digwydd, byddai'n gwneud cais am y statws priodol ond nid oes sicrwydd ynglŷn â'r amserlen na sut y byddai'r UE yn ymateb. Heb statws rhestredig ni fyddai modd allforio unrhyw beth i'r UE.
- **Cynhyrchion bwyd a warchodir gan 'ddynodiad daearyddol' (GI) pe na bai cytundeb ynghylch Brexit:** Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i holl ddynodiadau daearyddol y DU barhau i gael eu gwarchod gan gynllun yr UE. Fodd bynnag, os na fydd hynny'n digwydd, byddai'n rhaid i gynhyrchwyr y DU sydd am gael eu gwarchod gan ddynodiad daearyddol yr UE, a chael yr hawl i ddefnyddio logo dynodiad daearyddol yr UE, gyflwyno ceisiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd fel cynhyrchwyr 'trydedd wlad'.
- **Cludo nwyddau masnachol yn yr UE pe na bai cytundeb ynghylch Brexit:** Dylai cludwyr ystyried a oes angen trwyddedau arnynt i gludo nwyddau yn rhyngwladol. Mae hyd at 984 o drwyddedau blynyddol Euro 6 ECMT (Cynhadledd Gweinidogion Trafnidiaeth Ewrop) ar gael. Mae hyd at 2,592 o drwyddedau misol Euro 6 ECMT a 240 o drwyddedau misol Euro 5 ECMT ar gael. ...Disgwyliwn y bydd y galw am drwyddedau ECMT llawer yn uwch na'r hyn sydd ar gael.
- **Rheoleiddio cemegau (REACH) pe na bai cytundeb ynghylch Brexit:** Cynnal neu sicrhau mynediad i farchnad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd. ...Byddai angen i endidau o'r DU sydd eisoes wedi'u cofrestru drosglwyddo eu cofrestriadau i endid priodol yn yr AEE (megis corff cyswllt neu unig gynrychiolydd) neu ddatblygu perthnasau gwaith newydd gyda'u cwsmeriaid yn yr AEE. Byddai angen cymryd camau i sicrhau hyn cyn i'r DU adael yr UE.
- **Hedfan yn ôl ac ymlaen i'r DU pe na bai cytundeb ynghylch Brexit**: Yn y sefyllfa hon, byddai'r DU yn disgwyl rhoi caniatâd i gwmnïau hedfan yr UE barhau i weithredu. Byddem yn disgwyl i wledydd yr UE ymddwyn yr un fath yn eu tro. Ni fyddai o fudd i unrhyw wlad yr UE na'r DU gyfyngu ar y dewis o gyrchfannau y gellir eu cyrraedd, ond os na roddir y caniatadau hyn, gallai amharu ar rai teithiau hedfan.

## Tŷ'r Cyffredin

10 Medi: Dadl ar **Ddeddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael.**

10 Medi: Dadl Neuadd San Steffan: **Ymgyrch Vote Leave: y Gyfraith Etholiadol.**

12 Medi: Cwestiynau Swyddfa'r Cabinet: **Gadael yr UE: Cynlluniau wrth gefn pe na bai cytundeb.**

12 Medi: **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**, a **pharhad.**

12 Medi: Cwblhau **Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a Singapôr a chytundeb ynghylch diogelu buddsoddiadau.**

## Pwyllgorau

### Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig:

12 Medi: **Iansiwyd yr ymchwiliad i'r Bil Amaethyddiaeth.**

### Craffu ar Ewrop:

12 Medi: **Ysgrifennodd y Pwyllgor at Dominic Raab ynglŷn â'r broses o ymadael â'r UE – testun y llythyr.**

12 Medi: **Adroddiad rhif 38 – dogfennau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 12 Medi.**

### Ymadael â'r UE:

18 Medi: **Y Pwyllgor yn rhybuddio y byddai Brexit heb gytundeb yn anhrefnus ac yn niweidiol** - Adroddiad: **The progress of the UK's negotiations on EU withdrawal (June to September 2018).**

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

17 Medi: **Sesiwn dystiolaeth ar effaith Brexit heb gytundeb ar iechyd a gofal cymdeithasol i'w gynnal ym mis Hydref.**

### Materion Cartref:

14 Medi: **Y Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad ar gydweithredu rhwng y DU a'r UE ym maes diogelwch ar ôl Brexit - Government Response: UK-EU security cooperation after Brexit.**

### Hawliau Dynol:

4 Medi: **Y Bil Gwrthderfysgaeth a Diogelwch Ffiniau – cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth.**

### Masnach Ryngwladol:

10 Medi: **Cysylltiadau masnach rhwng y DU a'r UDA: cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth.**

12 Medi: **Archwiliwyd trefniadau'r DU a'r UE ar bolisi masnach ehangach. Trawsgrifiad.**





### Gogledd Iwerddon:

14 Medi: **Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad ar ddatganoli a democratiaeth – ymateb y Llywodraeth.**

15 Medi: **Mae angen mwy ar ddiwydiant pysgota Gogledd Iwerddon i greu hwb ar ôl Brexit na newidiadau i'r cwotâu** – Adroddiad: **Brexit and Northern Ireland: fisheries.**

### Gweithdrefnau:

16 Awst: **Llythyr at y Cadeirydd oddi wrth yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE, yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ynglŷn ag adroddiad y Pwyllgor ar graffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.**

13 Medi: **Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE, yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**, yn ymateb i'w lythyr ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar graffu ar ddeddfwriaeth ddirprwyedig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

18 Medi: **Bil y Cytundeb Ymadael: galw am dystiolaeth.**

10 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Ddeddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac ar y Bil Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) arfaethedig.

### Cyfrifon Cyhoeddus:

12 Medi: **Brexit: yr amser yn brin ar gyfer Defra ac adrannau eraill – Adroddiad: y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Department for Environment, Food and Rural Affairs: Progress in Implementing EU Exit.**

### Y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol:

18 Medi: **Ymateb y Llywodraeth i wythfed adroddiad y Pwyllgor: Devolution and Exiting the EU: reconciling differences and building strong relationships.**

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg:

5 Medi: Ymchwiliad i system fewnfudo sy'n gweithio o ran gwyddoniaeth ac arloesi **– tystiolaeth ysgrifenedig gan Amit Bhagwat.**

### Materion yr Alban:

10 Medi: **Trafodaeth yn Glasgow ar bysgodfeydd, bwyd ac amaethyddiaeth. Trawsgrifiad.** Tystiolaeth ysgrifenedig gan **Ffederasiwn Bwyd a Diod yr Alban.**

13 Medi: **Gwahodd sylwadau ar y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a'r Alban.**

### Y Trysorlys:

11 Medi: **Sesiwn dystiolaeth lafar ar berthynas economaidd y DU â'r Undeb Ewropeaidd.**

## Tŷ'r Arglwyddi

10 Medi: Cwestiynau am **y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol: pleidleiswyr ifanc.**

11 Medi: Cwestiynau ynghylch **setliad ariannol Brexit.**

11 Medi: Cwestiynau ynghylch **Brexit: dim cytundeb.**

11 Medi: Cwestiynau ynghylch **Brexit: Europol.**

11 Medi: Ail ddarlleniad y **Bil Masnach.**

## Pwyllgorau

### Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol:

12 Medi: Adroddiad rhif 33 – **y Bil Masnach.**

### Materion Economaidd:

11 Medi: **Y Pwyllgor Materion Economaidd yn holi Canghellor y Trysorlys. Trawsgrifiad.**

### Pwyllgor Dethol yr UE:

5 Medi: **Llythyr oddi wrth Dominic Raab am y dyfodol o ran craffu ar yr UE.**



**Briff Ymchwil:** Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb

### Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE:

12 Medi: **Llythyr at Michael Gove ar y gyfarwyddeb ansawdd aer.**

17 Hydref: **Trafododd y Pwyllgor pa mor barod yw Defra ar gyfer Brexit heb gytundeb.**

### Is-bwyllgor Materion Allanol yr UE:

5 Medi: Brexit: cyhoeddiadau ynghylch y trefniadau ar gyfer tollau tramor: **y Ffederasiwn Bwyd a Diod; Porthladd Dover; Cymdeithas Diwydiant a Busnes Twrci; Susan Morley; Stephen Adams; y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau.**

20 Medi: **Brexit: cyhoeddwyd yr adroddiad ar heriau o ran tollau tramor –** Adroddiad: **Brexit: the customs challenge.**

### Is-bwyllgor Materion Ariannol yr UE:

12 Medi: **y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn rhoi tystiolaeth i'r ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop.**

### Is-bwyllgor Materion Cartref yr UE:

12 Medi: **Holi'r Gweinidog ynghylch y Papur Gwyn ar Brexit a diogelwch yn y DU a'r UE ar ôl Brexit.**

14 Medi: **Yr Is-bwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog ynghylch y dewis i'r DU optio i mewn yn ystod y cyfnod pontio – testun y llythyr.**

### Is-bwyllgor Marchnad Fewnol yr UE:

13 Medi: **Sut y bydd Brexit yn effeithio ar y trefniadau o ran trafnidiaeth yn y DU a'r UE yn y dyfodol?.**

11 Hydref: Sesiwn dystiolaeth ar drefniadau trafnidiaeth y DU a'r UE yn y dyfodol.

### Cysylltiadau rhyngwladol:

12 Medi: **Y Pwyllgor yn holi cyn-gyfarwyddwr Pencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU (GCHQ) a'r cyn-gynghorydd Diogelwch Cenedlaethol. Trawsgrifiad.**

## Newyddion

11 Medi: **Rhaid i symudiadau cerbydau ac awyrennau fod yn flaenoriaeth ar gyfer Brexit, meddai'r Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau (FTA).**

13 Medi: **Mae rhwystrau mawr i'w goresgyn o hyd ar y ffordd i Brexit, meddai'r FTA.**

13 Medi: **Efallai bod Brexit yn agos iawn erbyn hyn, ond mae pethau'n bell o fod yn glir, meddai'r Gymdeithas Cludo Nwyddau (RHA).**

17 Medi: **Trwyddedau Cludo Nwyddau Rhyngwladol ar ôl Brexit (**RHA)

18 Medi: **Bydd ffatri Mini Rhydychen yn cau am fis ar ôl Brexit** (Autocar)

18 Medi: **Byddai canfyddiadau adroddiad gan y Llywodraeth yn golygu diwedd ar y diwydiant logisteg ar ôl Brexit** (yr FTA yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo)

18 Medi: **Mae adroddiad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo yn anwybodus ac yn elitaidd yn ôl yr RHA.**

19 Medi: **Annog trafodwyr i ddiystyru'r opsiwn o Brexit heb gytundeb wrth i SMMT rybuddio mai dim ond crafu'r wyneb yw'r bygythiad o dariffau £5 biliwn i'r sector ceir.**

24 Medi: **Adroddiad y Sefydliad Materion Economaidd ar Brexit wedi'i seilio ar fathemateg amheus** (BBC)





# Yr Alban

## Senedd yr Alban

Diweddariad Senedd yr Alban ar Brexit: **6 Medi; 18 Medi.**

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban: **Paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: masnachu gyda gwledydd yr UE a Pharatoi ar gyfer Brexit heb gytundeb: TAW i fusnesau**

11 Medi: Datganiad a chwestiynau ar y **paratoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.**

11 Medi: Y Pwyllgor Cyfiawnder: sesiwn dystiolaeth ar **Brexit (effaith ar y systemau cyfiawnder sifil a throseddol a phlismona).**

11 Medi: Pwyllgor yr Economi, Ynni a Gwaith Teg: sesiwn dystiolaeth ar **gronfeydd strwythurol a buddsoddi Ewrop.**

11 Medi: Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith: Sesiwn dystiolaeth ar y **Bil Masnach.**

12 Medi: Y Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad: **sesiwn dystiolaeth ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.**

14 Medi: **Effaith y trafodaethau ynghylch Brexit ar yr Alban:** wrth i'r trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU gyrraedd cam hollbwysig, mae'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol wedi lansio cais am dystiolaeth fel rhan o waith parhaus y Pwyllgor o graffu ar y trafodaethau ynghylch Erthygl 50, gan edrych ar effaith y trafodaethau hyn ar unigolion, busnesau a sefydliadau'r Alban.

## Llywodraeth yr Alban

11 Medi: **Paratoi ar gyfer Brexit – yr Ysgrifennydd Cysylltiadau Cyfansoddiadol yn rhybuddio am anhrefn os na fydd cytundeb.**

13 Medi: **Pryderon ynghylch pasbortau a Brexit – mae dull 'dim cytundeb' Llywodraeth y DU yn anghyfrifol.**

24 Medi: **Heb gytundeb, gallai teithiau hedfan gael eu llorio** – yr Ysgrifennydd Cysylltiadau Cyfansoddiadol yn galw am ddiwedd ar chwarae gemau peryglus o ran Brexit.



**Briff Ymchwil:** Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb

## Gogledd Iwerddon

Y Cynulliad yn cyhoeddi **cylchlythyr 'Brexit Brief' a gwybodaeth am Brexit.**

**Cylchlythyr 'Brexit Brief' mis Medi 2018.**

Mae gan Wasanaethau Ymchwil a Gwybodaeth y Cynulliad **Ganolbwynt Brexit** gyda gwybodaeth a lincs i adnoddau yn ymwneud â Brexit a Gogledd Iwerddon.

1 Awst: **Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn gofyn am sylwadau ar fframwaith polisi amaethyddol ar gyfer y dyfodol yng Ngogledd Iwerddon.**

# Cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig ac Iwerddon

19 Medi: **Y Taoiseach yn mynychu uwchgynhadledd anffurfiol yr UE yn Salzburg.**



**Briff Ymchwil:** Yr wybodaeth ddiweddaraf am adael yr Undeb

# Adroddiadau a gyhoeddwyd

## Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

11 Medi: **Brexit: Polisi amaethyddiaeth y DU.**

14 Medi: **Brexit a llywodraethu'r berthynas rhwng y DU a'r UE .**

18 Medi: **Rhestr ddarllen Brexit: materion cyffredinol.**

24 Medi: **Brexit a rheoleiddio cemegau (REACH).**

## The Conversation

**Brexit heb gytundeb: beth y gallai hynny olygu i dwristiaid o Brydain a theithiau hedfan.**

**Y fras fronfelen: aderyn Brexit sydd â stori i'w hadrodd am yr UE.**

**Eisiau refferendwm ar y cytundeb ar gyfer Brexit? Mae problem fawr ynglŷn a phleidlais o'r fath yn cael ei hanwybyddu.**

**Sut i atal Brexit rhag tindroi yn ddiddiwedd – gan arbenigwr mewn seicoleg**.

**Gallai ffermydd Prydain gael pas arbennig i logi gweithwyr mudol ar ôl Brexit.**

**A fyddai pleidlais ar gytundeb Brexit yn frad? Sylwadau o safbwynt seicoleg gymdeithasol.**

**Beth y mae ymfudo o'r UE wedi'i gyflawni ar gyfer y DU.**

**Mae Prydain oes Brexit wedi anghofio'n llwyr am gytundeb Paris ar newid yn yr hinsawdd.**

## UK in a Changing Europe

**Peidiwch â diystyru canlyniadau Brexit heb gytundeb.**

**Cost aruthrol Brexit heb gytundeb.**

**Beth yw'r heriau cyfreithiol o ran pontio?**

**Pontio a dyfodol masnach y DU.**

**Adroddiad y Llywodraeth ar fudo: colli cyfle am newid radical.**

**Pam mae mwy a mwy o siarad am "Brexit dall".**

## LSE Brexit

**Negeseuon ynghylch Brexit ar Twitter yn awgrymu mai cenedligrwydd a llymder – yn hytrach na phoblyddiaeth – a ysgogodd pleidleiswyr.**

**Mae Brexit yn addasu cyfansoddiad y DU o dan ein trwynau.**

**Mae Brexit wedi troi'n fater na ellir dod i gytundeb arno. Mae gan Theresa May ddyletswydd gyfansoddiadol i gyfaddef y gwir.**

**Sut y bydd Brexit yn effeithio ar ddatrys gwrthdaro rhwng y DU a gwledydd eraill Ewrop?**

**Cymorth y wladwriaeth a Brexit: y demtasiwn i ymyrryd am resymau gwleidyddol.**

**Sut y mae heddwch diffygiol Ewrop yn hwyluso cynnydd poblyddiaeth.**

**Rhoi opsiwn Sefydliad Masnach y Byd ar waith: sut y byddai Brexit heb gytundeb yn niweidio diwydiannau allweddol y DU yn ddifrifol.**

**Mae aelwydydd y DU eisoes yn dioddef canlyniadau'r bleidlais. Efallai bod y gwaethaf eto i ddod.**

**Gwersi o Dde Korea: Beth y byddai Brexit caled yn ei olygu i weithgynhyrchwyr Prydain?**

**Mae Gogledd Iwerddon yn wynebu creu ffin newydd ar ôl Brexit.**

**Nodiadau ar gyfaddawdu: nid yw ymuno â'r AEE yr un peth ag aros yn yr UE.**

**Adolygiad Llyfr: Europe's Brexit: EU Perspectives on Britain's Vote to Leave, wedi'i olygu gan Tim Oliver.**

**Mae disgwyl i lwc May o ran Brexit ddod i ben yn San Steffan yr hydref hwn.**





## Arall

**Brexit, diwydiant a pholisi o ran y gofod** – tystiolaeth gerbron Pwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwydiant, Ymchwil ac Ynni (ITRE) (Breugel)

